# CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 20fed o Fawrth 2018 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng J Phillips, P Walton, W Evans, G Evans, D Lewis, H James, J Lewis (CSC) a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng R Gallie

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 16eg o Ionawr a derbyniwyd yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** H James – Eitem 6 Rhent tir, W Evans a J Lewis (CSC) – Eitem 8 Rhoddion

**MATERION YN CODI:**
Yn dilyn y broblem llifogydd yng Nghwmbach llynedd fe wnaeth CSC ofyn am hysbysiad cynnar os oedd eisiau glanhau'r afon yn y dyfodol.

Hysbysodd y clerc y Cyngor ei fod wedi derbyn hyfforddiant oddi wrth y Swyddog Diogelu Data ynglyn a'r newidiadau fyddai y Rheol Diogelu Data Cyffredinol sydd yn dod yn effeithiol ar 25ain o Fai 2018 yn gael.

Fe wnaeth adran Hawliau Ffordd (CSC) hysbysu'r cyngor ei bod yn debygol o gwblhau'r gwaith ar y llwybrau a oedd wedi eu enwebu am welliant yn ystod 2017/18. Clerc i ddanfon llythyr ffurfiol o ddiolch i'r adran.

**ARCHWILYDD MEWNOL:**
Fe wnaeth Mr C Henry hysbysu'r Cyngor ei fod yn methu ymgymryd at ddyletswyddau'r Archwilydd Mewnol. Penderfynodd y Cyngor ddanfon tocyn anrheg £30 i ddiolch iddo am ei waith dros y blynyddoedd diwethaf. Clerc i drefnu.
Cymeradwywyd Miss R Davies fel archwilydd mewnol yn ei le. Clerc i ddanfon llythyr o ymrwymiad a chopi o ganllawniau archwilio mewnol Un Llais Cymru.

**RHENT TIR:**
(Gwnaeth Cyng H James ddatgan diddordeb a gadael y cyfarfod).
Trafodwyd yn hir adroddiad gan asiant tir a penderfynwyd fod y rhent am 2019/20 i'w gynyddu i £35 yr erw ac am 2020/21 i £50 yr erw.
(Gwnaeth Cyng H James ail-ymuno a'r cyfarfod).

**GOHEBIAETH:**
Gwnaeth CSC hysbysu'r Cyngor y byddai'r gost amcangyfrifol am olau stryd am 2018/19 yn £1120.66

Daeth gwahoddiad oddi wrth Federasiwn Sir Gaerfyrddin o G.Ff.I. i fynychu'r rali flynyddol ar ddydd Sadwrn 12fed o Fai.

**RHODDION:**
(Fe ddatganodd Cyng W Evans a J Lewis (CSC) ddiddordeb a chymeront ddim rhan yn y drafodaeth. Derbyniwyd ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth Teenage Cancer Trust, C.Ff.I. Sir Gaerfyrddin, Cancer Information and Support Services, Cruse Bereavement Care, Ambiwlans Awyr Cymru a phapur cymunedol Y Cardi Bach.
Yn dilyn trafodaeth am ymrwymiadau presennol ac i'r dyfodol penderfynwyd rhoddi £250 i'r Cardi Bach.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| GVO wind No. 24 – lles cymunedol | £240.37 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| SSE – trydan neuadd Llanwinio 24/10/17 – 24/01/18 | £271.89 |
| Un Llais Cymru – adnewyddu aelodaeth | £61.00 |
| CSC – golau stryd 2017/18 | £1046.16 |
| DM Payroll Services – gwasanaeth SDD | £360.00 |
| J J Morris – ffi proffesiynol | £180.00 |
| Dŵr Cymru – cae chwarae Blaewaun | £18.93 |

**CYNLLUNIO**: Dim

**U.F.A.**
Trafodwyd gwerthiant cae chwarae Blaenwaun a phenderfynodd y cynghorwyr i beidio cyfrannu fwy na'r gwerth marchnadol cyfredol.

Hysbysodd Cyng J Lewis (CSC) y Cyngor o Gynllun Datblygu Lleol (2020/21) newydd a oedd yn rhoddi cyfle i drigolion/cymunedau i awgrymu ardaloedd newydd i'w cynnwys.

Roedd gweddill y cyfarfod yn sesiwn gauedig a thrafododd y cynghorwyr y mater wrth law. Penderfynwyd mabwysiadu polisi cwynion swyddogol a pholisi ar weithred annerbyniol gan unigolion.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganodd y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 15fed o Fai 2018 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**